The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Piblinell Carbon Deuocsid HyNet |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN070007 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 17 Mehefin 2022 |
| **Cyfarfod gyda** | Liverpool Bay CCS Limited |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod diweddaru |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

### *Diweddariad ar y prosiect*

Dywedodd yr Apelydd y buont yn ymgysylltu'n barhaus â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a Thrysorlys Ei Mawrhydi o ganlyniad i bwyslais gan y llywodraeth ar bolisi ar gyfer dal a storio carbon a hydrogen. O fewn prosiect ehangach HyNet, roedd y cais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA) ar gyfer y prosiect cynhyrchu hydrogen wedi'i alluogi gan ddal a storio carbon yn cael ei benderfynu. Roedd cais wedi cael ei wneud am ganiatâd cynllunio ar gyfer y ddwy uned gyntaf (hyd at 1GW). Roedd y caniatâd sylwedd peryglus cysylltiedig yn cael ei gynnal yn gyfochrog. Roedd y prosiect piblinell dosbarthu hydrogen cysylltiedig gan Cadent Gas Limited wedi cwblhau ei ymgynghoriad anstatudol, gyda negeseuon cydgysylltiedig ar faterion fel brandio. Roedd Inovyn yn gwneud gwaith dylunio peirianegol cychwynnol (FEED) ar y tir ac o dan yr wyneb i ddatblygu cyfleusterau prosesu nwy newydd. Roedd Inovyn yn gwneud cais am newid i Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Prosiect Storio Nwy Keuper, i gynnwys hydrogen yn lle nwy naturiol. Roedd yn gweithio gyda Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWACC) ynglŷn â gofynion cyflawni.

Byddai BEIS yn dewis prosiectau eraill ar gyfer clystyrau dal a storio carbon y dyfodol yn ystod y degawd nesaf. Yn dilyn diwydrwydd dyladwy, roedd y fframwaith masnachol a rheoleiddiol yn cael ei ddatblygu trwy ddull cydweithredol rhwng BEIS a'r clwstwr trac 1. Byddai hyn yn cefnogi penderfyniadau buddsoddi. Cyflwynwyd cynigion ar gyfer prosiectau gwaith cynhyrchu a dal hydrogen unigol o fewn clwstwr trac 1 i BEIS ym mis Ionawr 2022, a disgwylid penderfyniad ym mis Gorffennaf 2022. Ni fyddai unrhyw oedi'n effeithio ar ddyddiad cyflwyno cais DCO Piblinell Carbon Deuocsid HyNet. Roedd yr Ymgeisydd yn gweithio gyda BEIS a Thrysorlys EM i gynyddu nifer y prosiectau. Roedd y

biblinell graidd wedi'i chadarnhau, ond byddai angen piblinellau cainc ar rai allyrwyr i gysylltu â'r brif biblinell. Ni fyddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y DCO. Fodd bynnag, byddent yn cael eu cynnwys yn yr effaith gronnol o fewn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn y ceisiadau TCPA yn y dyfodol. Roedd CF Fertilisers, sef partner allyrru sefydledig, wedi cyhoeddi cynnig i gau ei gyfleuster yn Swydd Gaer. Roedd yr Ymgeisydd wedi cadarnhau ystod eang o bartneriaid i gysylltu â'r prosiect, a oedd yn lleihau'r perygl ac yn golygu na fyddai cau'r cyfleuster hwn yn dyngedfennol i'r prosiect.

## *Diweddariad ar y Prosiect – Strategaeth Gydsynio*

Roedd hyn yr un fath â chyfarfodydd blaenorol, i raddau helaeth, ond roedd ymarfer ar waith i leihau caffael gorfodol o fewn y DCO lle'r oedd prydlesi eisoes yn bodoli. Ni ddisgwyliwyd y byddai angen diwygio prydlesi gan nad oeddent yn nodi defnydd o biblinell yn benodol. Roedd dull yr Ymgeisydd o ddefnyddio seilwaith a phrydlesi presennol yn newydd ac nid oedd modd ei gymharu â phrosiectau piblinell eraill yn yr ardal. Roedd mwyafrif helaeth y llwybr yn cynnwys tir amaethyddol. Roedd yr Ymgeisydd yn gweithio trwy faterion lle'r oedd perchnogaeth tir yn aneglur. Roedd y ceisiadau TCPA yn symud ymlaen o dan un Datganiad Amgylcheddol.

## *Adolygiad o ddogfennau drafft*

Rhoddodd yr Ymgeisydd grynodeb o'r camau a gymerwyd yn dilyn yr adolygiad o ddogfennau drafft gan yr Arolygiaeth:

- Byddai cynlluniau allwedd ar gyfer cynlluniau tir a gwaith yn gyson ar gyfer y cais DCO.
- Byddai croeslinellu ar gynlluniau yn cael ei wneud yn fwy gweladwy.
- Byddai cynlluniau mynediad a hawliau tramwy yn rhan o gyfres o ddogfennau a fyddai'n cynnwys cynlluniau wedi'u marcio â phrif ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus. Byddai'r holl gofnodion yn cael eu harddangos yn yr allwedd. Cadarnhawyd hefyd fod problem dechnegol yn golygu bod llinell ddi-dor wedi cael ei dehongli fel bod yn doredig.
- Roedd y cynlluniau Terfynau'r Gorchymyn a gyflenwyd yn fersiwn hŷn, a byddai hyn yn cael ei unioni ar yr adeg cyflwyno.
- Byddai cyfeiriadau at dir cyfnewid yn gyson yn y Llyfr Cyfeirio. Byddai cyfeiriadau at dir y goron a mannau agored yn cael eu gwahanu.
- Nid oedd cyfeiriadau wedi cael eu cynnwys yn Rhan 3 y Llyfr Cyfeirio er mwyn lleihau ailadrodd. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai hyn yn dderbyniol, ar yr amod ei fod yn cael ei nodi'n glir a'i fod yn unol â gofynion deddfwriaethol.
- Roedd angen mireinio'r Llyfr Cyfeirio o ran y biblinell.

## *Ymgynghoriad wedi'i dargedu*

Roedd 24 o newidiadau lleol (y mwyafrif ohonynt yn fân newidiadau) o Derfynau'r Gorchymyn a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad statudol o ganlyniad i waith dylunio ychwanegol yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad statudol. Roedd dogfennau ymgynghori ar wefan Hwb HyNet bellach, ac roedd y strategaeth ymgynghori ddrafft wedi cael ei rhannu gydag awdurdodau cynllunio lleol a sylwadau wedi cael eu derbyn. Y newidiadau mwyaf arwyddocaol oedd ailgyfeirio piblinell trwy Ewloe i osgoi eiddo preswyl, gwelliannau i fynediad a chysylltiadau i'r Orsaf Falfiau Bloc (BVS) yn Northop Hall, adleoli cyfadeilad canolog i ffwrdd oddi wrth dai preswyl, adleoli Gosodiad Uwchben y Ddaear (AGI) y Fflint i gae cyfagos, a dileu BVS Coed-y-Cra o'r biblinell bresennol. Roedd yr ymgynghoriad wedi'i dargedu oherwydd bod y newidiadau'n effeithio ar ardaloedd bach o dir ac ni fyddent yn cael effaith arwyddocaol ar ganfyddiadau'r Adroddiad Gwybodaeth

Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR). Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r sail resymegol gael ei hamlinellu'n glir yn yr adroddiad ymgynghori. Byddai'r ymgynghoriad yn parhau tan 19 Gorffennaf 2022, gydag unrhyw un â buddiant mewn tir a oedd y tu allan i derfynau'r gorchymyn yn flaenorol ond sydd o fewn terfynau'r gorchymyn bellach yn dilyn y newidiadau. Roedd nifer fawr o newidiadau o ganlyniad i drafodaethau presennol, felly ni ddisgwyliwyd llawer iawn o ymatebion. Roedd deunyddiau ymgynghori ar gael yn Gymraeg a Saesneg lle y bo'n briodol, a byddai digwyddiadau wyneb yn wyneb ar gael ar gais.

### *Y rhaglen*

Roedd y rhaglen tymor hwy yn cynnwys:

- Ymgynghoriad cyn-ymgeisio ynglŷn â'r cais TCPA yn ystod Chwarter 3 2022.
- Cyflwyno cais DCO yn ystod Chwarter 3 2022 (yn adlewyrchu'r ymgynghoriad wedi'i dargedu sydd i ddod).
- Cyflwyno cais TCPA yn ystod Chwarter 4 2022.
- Penderfynu ar y TCPA a phenderfyniad yn ystod Chwarter 1 / Chwarter 2 2023.
- Penderfyniad ar y DCO yn ystod Chwarter 4 2023.

Rhoddodd yr Arolygiaeth wybod am nifer y ceisiadau a ddisgwylir yn ystod Chwarter 3 / Chwarter 4. Roedd y wybodaeth ar wefan yr Arolygiaeth yn cael ei defnyddio gan gyrff statudol i gynllunio a threfnu adnoddau. Dylid cyflenwi gwybodaeth benodol am ddyddiadau cyflwyno cyn gynted â phosibl. Byddai hyd y cyfnod cyn-archwilio'n dibynnu ar y cais a gallai unrhyw geisiadau am wybodaeth trwy gyngor a51 a'r cyfnod Sylwadau Perthnasol effeithio arno. Mae'r Arolygiaeth yn dilyn canllawiau'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DCLG) a chynghorodd yr Ymgeisydd i adolygu'r cyfnodau cyn-archwilio ar gyfer ceisiadau DCO diweddar.

### *Diweddariad amgylcheddol*

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar asesiadau a llunio'r Datganiad Amgylcheddol. Roedd timau peirianneg a dylunio'n datblygu cynigion lliniaru a sut i'w hymgorffori mewn ymrwymiadau amgylcheddol. Roedd nodyn technegol yn cael ei baratoi yn amlinellu ymagwedd ragofalus at fioamrywiaeth. Roedd data procsi o safle cyfagos a chanfyddiadau asesu yn cael eu hystyried i benderfynu ar fesurau lliniaru priodol.

Roedd nifer o arolygon wedi'u cwblhau, ond roedd rhai arolygon ecoleg, gan gynnwys asesiad cyflwr afonydd a rheoli mawn, wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnosau i ddod. Roedd yr Ymgeisydd yn ystyried canllawiau a methodoleg arfer gorau. Byddai rhai arolygon yn parhau ar ôl cyflwyno o ganlyniad i'w hysbeidiau gofynnol (er enghraifft, arolygon ystlumod, dyfrgwn a llygod y dŵr). Pan fyddai'r Datganiad Amgylcheddol wedi'i gwblhau, byddai ei gasgliad yn cael ei adolygu a byddai atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â data arolwg. Ni ddisgwyliwyd y byddai effaith ar gasgliadau'r Datganiad Amgylcheddol, ac roedd yr Ymgeisydd yn cyfarfod â Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar y dull hwn. Gofynnodd yr Arolygiaeth am syniad o'r graddfeydd amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon ac amlygodd yr angen i roi cyfle i bartïon eraill ei hystyried ac ymateb iddi yn ystod yr Archwiliad. Byddai'r Ymgeisydd yn cynnwys manylion unrhyw gytundeb â Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Datganiadau Tir Cyffredin perthnasol, ond amlygodd heriau yn ymwneud ag ymgysylltu. Pwysleisiodd yr Arolygiaeth bwysigrwydd datrys materion yn ystod y cam cyn-ymgeisio, a allai leihau risgiau a'r lefelau ymgysylltu sy'n ofynnol yn ystod yr Archwiliad. Byddai cymaint o wybodaeth â phosibl gan bartïon eraill am eu safbwyntiau neu resymau dros ddiffyg ymgysylltu yn ddefnyddiol.

Roedd cyfarfodydd â rhanddeiliaid amrywiol yn parhau, gan gynnwys trafodaethau ynglŷn â thraffig a thrafnidiaeth (yn enwedig o ran mynediad dros dro), ecoleg, safleoedd treftadaeth a pherygl llifogydd. Byddai'r Ymgeisydd yn ceisio cyfarfod â Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau cynllunio lleol i drafod ansawdd aer.

## *Diweddariad gan yr Arolygiaeth Gynllunio*

Roedd digwyddiadau cyfunol wedi dechrau ar gyfer prosiect Sero Net Teesside, felly dylai'r Ymgeisydd ddechrau ystyried lleoliadau posibl ar gyfer digwyddiadau cyfunol, rhag ofn y byddai eu hangen, yn ogystal â chwmnïau clyweledol a dull o ddarparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau. Roedd yr Arolygiaeth yn disgwyl cynnydd o ran nifer y prosiectau y mae eu rhaglenni'n dilyn llinellau amser tebyg, felly fe allai fod mwy o alw, yn enwedig am gwmnïau clyweledol. Byddai'r Awdurdod Archwilio yn penderfynu p'un a fyddai angen i ddigwyddiadau fod yn gyfunol neu'n gwbl rithwir yn dibynnu ar lefelau diddordeb ac unrhyw adborth a gafwyd ar ymgysylltu (er enghraifft, roedd partïon statudol yn tueddu i ffafrio presenoldeb rhithwir).

## *Unrhyw fater arall*

Byddai'r Ymgeisydd yn cysylltu â'r Arolygiaeth pe byddai angen cyfarfod diweddaru arall ynglŷn â'r prosiect cyn cyflwyno, a byddai'n rhoi diweddariad ynglŷn â'r dyddiad cyflwyno ar ôl i'r ymgynghoriad wedi'i dargedu ddod i ben. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'n cyhoeddi llythyrau cyn-ymgeisio tua phedair wythnos cyn cyflwyno. Byddai'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am y ffi dderbyn a hefyd yn gofyn am fanylion awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer y cais digonolrwydd ymgynghori.

Heriodd yr Ymgeisydd y ffïoedd a nifer yr arolygwyr yn yr Awdurdod Archwilio. Dywedodd fod lefel y diddordeb lleol yn llai gan fod mwyafrif y cynllun o dan y ddaear. Roedd cefnogaeth gan awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau seneddol lleol. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'r pwyntiau hyn yn cael eu hystyried, ynghyd â lefelau diddordeb cyhoeddus a chaffael gorfodol, ac y byddai penderfyniad ar faint yr Awdurdod Archwilio yn cael ei wneud pan fyddai'r cais wedi cael ei dderbyn.

Holodd yr Ymgeisydd sut y dylai gwybodaeth bersonol yn yr adroddiad ymgynghori gael ei rheoli. Roedd Nodyn Cyngor 14 wedi cael ei ddiweddaru, ac roedd adran 7 yn amlinellu'r hyn y dylid ei eithrio o'r adroddiad.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Meeting note

| | |
|---|---|
| **Project name** | HyNet Carbon Dioxide Pipeline |
| **File reference** | EN070007 |
| **Status** | **Final** |
| **Author** | The Planning Inspectorate |
| **Date** | 17 June 2022 |
| **Meeting with** | Liverpool Bay CCS Limited |
| **Venue** | Microsoft Teams |
| **Meeting objectives** | Update meeting |
| **Circulation** | All attendees |

## Summary of key points discussed and advice given

The Planning Inspectorate (the Inspectorate) advised that a note of the meeting would be taken and published on its website in accordance with section 51 of the Planning Act 2008 (the PA2008). Any advice given under section 51 would not constitute legal advice upon which applicants (or others) could rely.

### *Project update*

The Applicant noted they have had ongoing engagement with the Department for Business, Energy and Industrial Strategy (BEIS) and Her Majesty's Treasury (HMT) as a result of government focus on policy for carbon capture and storage (CCS) and hydrogen. Within the wider HyNet project, the Town and Country Planning Act 1990 (TCPA) application for the CCS enabled hydrogen production project was being determined. Planning permission for the first two units had been applied for (up to 1GW). The associated hazardous substance consent was running in parallel. The related hydrogen distribution pipeline project by Cadent Gas Limited had completed its non-statutory consultation, with joined up messaging on matters such as branding. Inovyn were undergoing front end engineering design (FEED) on the top side and sub surface side to develop new gas processing facilities. Inovyn were pursuing an application for a change request application to the Keuper Gas Storage Project Development Consent Order (DCO), to include hydrogen instead of natural gas. It was working with Cheshire West and Chester Council (CWACC) regarding discharge requirements.

BEIS would be selecting further projects for future CCS clusters over the next decade. Following due diligence, the commercial and regulatory framework was being developed with a collaborative approach between BEIS and the track 1 cluster. This would support investment decisions. Bids for individual hydrogen production and capture plant projects within the track 1 cluster were submitted to BEIS in January 2022, with a decision due in July 2022. Any delay would not impact the HyNet Carbon Dioxide Pipeline DCO application submission date. The Applicant was working with BEIS and the HMT to increase the volume of projects. The core pipeline was established but some emitters

would require spur pipelines to connect to the main pipeline. These would not be included in the DCO. They would however be included in the cumulative impact within the Environmental Impact Assessment (EIA) and in the future TCPA applications. CF Fertilisers, an established emitter partner, had announced a proposal to close its Cheshire facility. The Applicant established a broad range of partners to connect to the project, which reduced the risk and meant this closure would be non-critical to the project.

### *Project Update - Consenting Strategy*

This remained largely unchanged from previous meetings however an exercise was underway to reduce compulsory acquisition within the DCO where existing leases were in place. It was not anticipated that leases would need to be amended as they did not specify pipeline use. The Applicant's approach to using existing infrastructure and leases was novel and not comparable with other pipeline projects in the area. The vast majority of the route consisted of agricultural land. The Applicant was working through issues where land ownership was unclear. The TCPA applications were moving forward under one Environmental Statement (ES).

### *Draft documents review*

The Applicant provided a brief summary of the actions taken following the review of draft documents by the Inspectorate:

- Key plans for land and work plans would be consistent for the DCO application.
- The use of hatching on plans would be made more visible.
- Access and rights of way plans would be part of a suite of documents which would include marked plans with major roads and public rights of way. All entries would be displayed on the key. It was also established that a technical issue meant a solid line was interpreted as broken.
- Order limit plans supplied were an older version, this would be rectified at submission.
- Replacement land would be referenced consistently in the Book of Reference (BoR). References to crown land and open space would be separated.
- Addresses had not been included within Part 3 of the BoR to reduce repetition. The Inspectorate advised as long as this was clearly flagged and in line with legislative requirements this would be acceptable.
- The BoR needed refinement in relation to the pipeline.

### *Targeted consultation*

There were 24 localised changes (majority were minor) from the Order Limits presented at statutory consultation due to further design work following statutory consultation feedback. Consultation documentation was now on the HyNet Hub website, and the draft consultation strategy had been shared with local planning authorities (LPA) and comments received. The most significant changes were the re-direction of a pipeline through Ewloe to avoid residential properties, improvements to access and connections to the Block Valve Station (BVS) at Northop Hall, the relocation of a centralised compound away from residential houses, the relocation of Flint Above Ground Installation (AGI) to an adjacent field, and the removal of Coed-y-Cra BVS on the existing pipeline. Consultation was targeted due to the changes affecting small areas of land and not having significant impact on the findings of the Preliminary Environmental Information Report (PEIR). The Inspectorate requested that the rationale was clearly set out within the consultation report. Consultation would run until 19 July 2022, with

anyone with an interest in land that previously fell outside order limits but now fell inside following changes. A large number of changes were as a result of existing dialogue, so high volumes of responses were not expected. Consultation materials were available in Welsh and England where appropriate, and face to face events would be available on request.

### *Programme*

The longer term programme included:

- TCPA pre-application consultation in Q3 2022.
- DCO application submission in Q3 2022 (reflecting the forthcoming targeted consultation)
- TCPA application submission in Q4 2022.
- TCPA determination and decision in Q1/ Q2 2023.
- DCO decision in Q4 2023.

The Inspectorate advised of the number of applications expected in Q3/ Q4. The information on the Inspectorate's website was used by statutory bodies for planning and resourcing. Specific information about submission dates should be supplied as soon as possible. The length of pre-examination period would be dependent on the application and could be affected by any requests for information via s51 advice and the Relevant Representations period. The Inspectorate adheres to the Department for Levelling Up, Housing and Communities (DCLG) guidance and advised the Applicant to review the pre-examination periods for recent DCO applications.

### *Environmental update*

Assessments and drafting of the ES was underway. Engineering and design teams were taking forward mitigation proposals and how to embed them into environmental commitments. A technical note setting out a precautionary approach to biodiversity was being prepared. Proxy data from a nearby site and assessment findings were being considered to determine appropriate mitigation.

A number of surveys were completed, but some ecology surveys, including river condition assessment and peat management were scheduled in the coming weeks. The Applicant was considering best practice guidance and methodologies. Some surveys would continue post submission due to their required intervals (for example bat, otter and water vole surveys). Once complete the ES conclusion would be reviewed, and an ES addendum would be submitted alongside survey data. The ES conclusions were not anticipated to be impacted, and the Applicant was meeting with Natural England (NE) and Natural Resources Wales (NRW) to agree this approach. The Inspectorate requested an indication of timeframes for submission of this information and highlighted the need to allow other parties opportunity to consider and respond to it during the Examination. The Applicant would include details of any agreement with NE and NRW within the relevant Statements of Common Ground (SoCG) but highlighted challenges with engagement. The Inspectorate set out the importance of issue resolution during pre-application, which could reduce risks and levels of engagement required during Examination. As much information from other parties about their views on position or reasons for non-engagement would be useful.

Meetings with various stakeholders were ongoing, including discussions surrounding traffic and transport (particularly in regards to temporary access), ecology, heritage sites

and flood risk. The Applicant would seek to meet with Environmental Health Officers for local planning authorities to discuss air quality.

### *Update from the Planning Inspectorate*

Blended events had commenced for the Net Zero Teesside project, therefore the Applicant should start to consider potential venues for blended events, in case they were required, as well as Audio Visual (AV) companies and means of providing simultaneous translation for events. The Inspectorate was expecting an increase in projects on  similar programme timelines, therefore there could be increased demand particularly for AV companies. The Examining Authority (ExA) would determine whether events would need to be blended or wholly virtual depending on levels of interest and any feedback received on engagement (for example statutory parties tended to prefer virtual attendance).

### *AOB*

The Applicant would contact the Inspectorate should another project update meeting be required before submission and would provide an update on the submission date following the close of the targeted consultation. The Inspectorate advised it would issue pre-submission letters approximately four weeks prior to submission. These would include information about the acceptance fee and also request LPA details for the adequacy of consultation request.

The Applicant queried the fees and the number of inspectors within the ExA. It advised that the level of local interest was reduced as the majority of the scheme was underground. There was support from LPA's and local members of parliament. The Inspectorate advised these points would be taken into account along with levels of public interest and compulsory acquisition and a decision on the size of the ExA would be made once the application had been accepted.

The Applicant queried how personal information within the consultation report should be managed. Advice Note 14 had been updated, and section 7 set out what should be excluded from the report.